



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dogfen Ymgynghori Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

YMGYNGHORIAD I BLANT A PHOBL IFANC



Rydym ni
eisiau eich barn
Gadewch i ni wybod
beth ydych chi'n
feddwl erbyn 22
Mawrth 2019

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yma i wneud Cymru'n lle gwych i fyw, gweithio a dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i holl blant a phobl ifanc Cymru gael y cyfleoedd gorau i wneud yn dda mewn bywyd.

Mae rhai plant a phobl ifanc yn ei chael yn llawer anoddach i ddysgu na'r rhan fwyaf o rai eraill o'r un oedran. Efallai eu bod nhw angen cymorth ychwanegol gyda phethau megis:

- gwaith meithrin, ysgol neu goleg
- deall gwybodaeth
- dweud wrth bobl beth maen nhw'n ei feddwl.

Mae rhai plant a phobl ifanc gydag anabledd yn gallu ei chael hi'n anodd mewn meithrinfa, ysgol neu goleg, i wneud pethau fel:

- clywed beth sy'n cael ei ddweud yn y dosbarth
- defnyddio offer mewn dosbarthiadau megis gwyddoniaeth neu gelf.

Rydym ni'n galw hynny'n angen dysgu ychwanegol.

Nid oes gan rai plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol mewn meithrinfa, ysgol neu goleg angen dysgu ychwanegol. Efallai mai dim ond ychydig o gymorth i ddal i fyny y mae'r plant neu'r bobl ifanc hynny ei angen. Gallai'r plant neu'r bobl ifanc hynny hefyd fod yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ond yn siarad iaith arall yn y cartref.

Rydym ni angen eich help

Rydym ni'n newid y ffordd y byddwn yn helpu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn gwneud i hynny ddigwydd rydym wedi gwneud cyfraith newydd. Rydym yn egluro'r gyfraith newydd mewn dogfen o'r enw Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r Cod yn dweud wrth ysgolion, colegau, awdurdodau lleol neu wasanaethau ieuchyd sut y mae'n rhaid iddyn nhw helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n trafod pethau fel sut mae plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud a sut i wneud yn siŵr fod help ar gael pan fydd ei angen.

Rydym ni eisiau gwybod beth ydych chi'n yn ei feddwl ynghylch y newidiadau rydym ni'n eu gwneud. Atebwch unrhyw un o'r cwestiynau yr ydych eisiau rhoi eich sylwadau yn eu cylch.

Mae gennym ni ychydig o syniadau ynghylch sut y bydd y gyfraith newydd yn gweithio. Rydym yn galw'r rhain yn egwyddorion.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod:

- sylwadau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cyfrif pan fydd penderfyniadau'n cael eu cymryd yn gl'yn â sut i'w helpu
- bod y gefnogaeth briodol ar gael yn gyflym er mwyn helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol
- bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol
- bod plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu mynd i'w hysgol neu goleg lleol.
- bod plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael help yn Gymraeg os ydyn nhw angen

Cwestiwn 1:

Ydych chi'n meddwl mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir?

Ydw

Nac Ydw

Cynlluniau Datblygu Unigol

Bydd gan y plant a'r bobl ifanc sydd angen help gyda dysgu fath newydd o gynllun.

Enw'r cynllun yw cynllun datblygu unigol. Bydd y cynllun newydd yn disodli datganiadau neu fathau eraill o gynlluniau gan ysgolion neu golegau. Bydd y cynllun yn dweud llawer am y plant a'r bobl ifanc er mwyn i oedolion allu eu helpu i ddysgu.

Mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys:

- pa fath o angen dysgu ychwanegol sydd gan y plentyn neu'r person ifanc
- sut y bydd yr ysgol, coleg, awdurdod lleol neu'r gwasanaeth iechyd yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc
- a fydd y cymorth ar gael yn Gymraeg
- enw unrhyw ysgol arbennig neu goleg arbennig y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn ei mynychu

Mae gennym ni ychydig o syniadau eraill ynghylch beth y mae'n rhaid i'r cynllun ei ddweud:

- enw, oed, rhyw a chyfeiriad y plentyn neu'r person ifanc a sut i siarad gyda nhw –ydyn nhw'n defnyddio iaith arwyddo, er enghraifft
- pwy fydd yn gofalu am y cynllun
- beth mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi a beth sy'n gweithio'n dda a beth nad yw'n gweithio cystal
- a fydd y plentyn neu'r person ifanc yn dysgu pethau gwahanol yn yr ysgol o gymharu â phlant eraill o'r un oedran
- yr holl wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r cynllun
- pethau pwysig sydd wedi digwydd – megis newid ysgolion, profion ysbyty neu bethau sydd wedi digwydd yn y cartref
- unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd - fel newid ysgol neu fynd i'r coleg

Cwestiynau 2 a 3

2. Ydych chi'n hoffi ein syniadau eraill ynghylch beth mae'n rhaid i'r cynllun ei ddweud?

Ydw

Nac Ydw

3. Oes gennych chi unrhyw syniadau ynghylch beth arall rydych yn meddwl y dylai ei ddweud?

Oes

Nac Oes

Pa mor hir dylai'r cynllun ei gymryd i'w wneud?

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr nad oes rhaid i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol aros yn rhy hir nes eu bod yn derbyn eu cynllun.

Bydd y rhan fwyaf o gynlluniau'n cael eu paratoi gan ysgolion a cholegau.

Weithiau bydd cynllun yn cael ei baratoi gan awdurdod lleol. Efallai y bydd hynny oherwydd bod gan y plentyn neu'r person ifanc angen dysgu ychwanegol sydd angen llawer o gymorth.

Bydd gan ysgolion a cholegau 35 diwrnod (7 wythnos) i baratoi cynllun neu i ddweud os nad ydyn nhw'n meddwl fod angen cynllun.

Rydym ni'n meddwl y bydd ysgolion a cholegau angen 35 diwrnod oherwydd y bydd yn rhaid iddyn nhw wneud y pethau canlynol:

- rhoi gwybod i'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc eu bod yn penderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol

- canfod yr holl wybodaeth i'w helpu i baratoi'r cynllun – fel siarad gyda'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc

- paratoi'r cynllun a rhoi'r cynllun i'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc neu ddweud nad oes angen cynllun.

Bydd gan awdurdodau lleol 12 wythnos i baratoi cynllun. Rydym ni'n meddwl y bydd awdurdodau lleol angen mwy o amser nag ysgolion a cholegau oherwydd eu bod nhw'n paratoi cynlluniau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen llawer o gymorth.

Mae'n gallu cymryd yn hirach i baratoi cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen llawer o gymorth oherwydd bod llawer mwy o wybodaeth i'w gasglu. Gallai hynny fod oddi wrth feddygon a gweithwyr cymdeithasol. Mae mwy o wybodaeth yn golygu fod mwy i feddwl amdano er mwyn gwneud yn siŵr fod yn cymorth yn briodol.

Cwestiwn 4

4. Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd ar gael i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau?

Darparu gwybodaeth

Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig na ddylai awdurdodau lleol aros am amser hir i gael gwybodaeth gan bobl.

Pan fydd awdurdodau lleol yn paratoi cynllun mae'n rhaid iddyn nhw ganfod llawer o bethau am y plentyn neu'r person ifanc a sut i'w helpu. Fe allen nhw ganfod pethau drwy ofyn i bobl sy'n gweithio mewn lleoedd megis ysgolion, colegau neu awdurdodau lleol eraill.

Os bydd pobl yn cymryd amser hir i ateb yr awdurdod lleol mae'n golygu y bydd yn cymryd amser hir i'r awdurdod lleol baratoi'r cynllun.

Rydym ni'n meddwl y dylai pobl gael 6 wythnos i ateb yr awdurdod lleol.

Rydym ni'n meddwl fod 6 wythnos yn ddigon o amser hyd yn oed os bydd y plentyn neu'r person ifanc angen llawer o gymorth a bod llawer i'w ddweud wrth yr awdurdod lleol. Rydym ni hefyd yn meddwl fod 6 wythnos yn golygu y bydd gan yr awdurdodau lleol yr wybodaeth y maen nhw ei hangen mewn da bryd i allu paratoi cynllun neu edrych unwaith eto ar gynllun ar yr adeg iawn.

5. Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan bobl i ateb cwestiwn awdurdod lleol am y plentyn neu'r person ifanc a sut i'w helpu?

Cynnwys y gwasanaeth iechyd

Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig nad oes raid i blant, eu rhieni na phobl ifanc orfod aros am amser hir i gael gwybod a allai'r gwasanaethau iechyd fod o gymorth.

Mae pobl mewn awdurdodau lleol a cholegau'n gallu gofyn i'r gwasanaethau iechyd a oes ffordd y gallen nhw fod o gymorth i blentyn neu berson ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym ni'n meddwl y dylai'r gwasanaethau iechyd roi gwybod i bobl yn fuan a allen nhw fod o gymorth a sut y gallen nhw fod o gymorth.

Rydym ni'n meddwl mai'r amser hiraf y dylen nhw ei gael i wneud hynny yw 6 wythnos. Rydym yn meddwl y dylai'r gwasanaethau iechyd allu gwneud hynny o fewn 6 wythnos oherwydd mae rhywbeth tebyg eisoes yn digwydd gyda datganiadau.

Hefyd, mae yr un faint o amser ag a fydd gan bobl yn gweithio mewn lleoedd megis ysgolion, colegau ac awdurdodau eraill i ateb cwestiynau gan awdurdod lleol am blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol.

6. Beth yw eich barn chi ynglŷn â pha mor hir y bydd gan y gwasanaethau iechyd i roi gwybod i bobl a oes ffordd y gallen nhw fod o gymorth?

Adolygu cynlluniau

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr, os nad yw plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn hapus gyda'u cynllun, na fydd yn rhaid iddyn nhw aros yn rhy hir i rywun edrych ar eu cynllun unwaith eto. Rydym ni'n galw hynny'n adolygiad.

Mae plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn gallu gofyn i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i adolygu cynllun oherwydd bod rhywbeth wedi newid.

Bydd gan ysgolion a cholegau 35 diwrnod (7 wythnos) i wneud hynny.

Rydym yn meddwl y bydd ysgolion a cholegau angen yr un faint o amser i adolygu cynllun ag y maen nhw ei angen i baratoi cynllun. Mae hynny oherwydd y bydd yn rhaid iddyn nhw wneud yr un math o bethau ag wrth baratoi cynllun:

- canfod yr holl wybodaeth i'w helpu i benderfynu sut i newid y cynllun
- newid y cynllun a'i roi i'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc neu ddweud os nad oes angen newid y cynllun.

Bydd gan awdurdodau lleol hefyd 7 wythnos i wneud hynny.

Rydym yn meddwl na fydd awdurdodau lleol angen cymaint o amser i adolygu cynllun ag sydd ei angen i baratoi cynllun. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gasglu llawer o wybodaeth pan oedden nhw'n paratoi cynllun am y tro cyntaf.

Dydym ni ddim yn meddwl y bydd angen casglu cymaint o wybodaeth wrth adolygu'r cynllun.

7. Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i adolygu cynlluniau?

Cael ail farn ar gynllun

Rydym eisiau gwneud yn siŵr, os nad yw plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn fodlon gyda chynllun sydd wedi'i baratoi gan ysgol, na fydd yn rhaid iddyn nhw aros yn hir cyn cael rhywun i edrych ar eu cynllun unwaith eto.

Mae plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn gallu gofyn i awdurdod lleol edrych unwaith eto ar gynllun sydd wedi'i baratoi gan ysgol os nad ydyn nhw'n meddwl fod cynllun yr ysgol yn iawn. Bydd gan yr awdurdod lleol 7 wythnos i wneud hynny.

Rydym ni'n meddwl y bydd yn cymryd 7 wythnos i ysgolion paratoi cynllun. Rydym ni'n meddwl hefyd y bydd yn cymryd tua'r un faint i awdurdodau lleol edrych unwaith eto ar gynllun. Mae hynny oherwydd y bydd angen gwneud yr un math o bethau ag yr oedd yr ysgol yn eu gwneud:

- canfod yr holl wybodaeth i'w helpu i gael ail olwg ar y cynllun – megis siarad gyda'r plentyn, eu rhieni, y person ifanc a'r ysgol
- ystyried a yw'r cynllun yn iawn
- paratoi cynllun newydd os nad yw'r cynllun yn iawn.

8. Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan awdurdodau lleol i edrych unwaith eto ar gynlluniau sydd wedi'u paratoi gan ysgolion?

Datrys problemau

Mae dadleuon yn gallu codi pan nad yw plant a phobl ifanc yn hapus gyda'u cynlluniau neu gyda'r cymorth y maen nhw'n ei gael.

Rydym ni eisiau ceisio atal dadleuon rhag digwydd. Os bydd dadleuon yn digwydd rydym eisiau eu datrys yn gyflym.

Rydym ni wedi penderfynu mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr nad yw dadleuon yn codi a'u bod yn cael eu datrys yn gyflym. Rydym ni hefyd wedi penderfynu fod yn rhaid i awdurdodau lleol ddweud wrth blant a phobl ifanc beth maen nhw'n ei wneud i atal dadleuon a'u datrys.

Rydym yn meddwl y dylai awdurdodau lleol wneud rhai pethau eraill i helpu atal dadleuon ac i'w datrys:

- sôn ar eu gwefan beth maen nhw'n ei wneud i helpu

- gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn gallu deall beth maen nhw'n ei wneud
- dweud sut mae plant a phobl ifanc yn gallu cael siarad gyda rhywun sy'n gallu helpu
- gwneud yn siŵr fod y bobl sy'n helpu yn gwybod am anghenion dysgu ychwanegol a'u bod yn deg
- gwneud yn siŵr ei bod yn hawdd i blant a phobl ifanc gael cymorth
- gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn gallu cael help ar eu pennau eu hunain os nad ydyn nhw eisiau dod gyda'u rheini.

9. Beth yw eich barn chi am ein syniadau am y pethau y dylai awdurdodau lleol eu gwneud i helpu i atal a datrys dadleuon?

Eiriolwyr

Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig fod yna berson i siarad ar ran plant a phobl ifanc os nad yw dadl yn gallu cael ei datrys.

Weithiau nid yw dadl am gynllun neu'r cymorth mae plant a phobl ifanc yn ei gael yn cael ei datrys.

Mae yna bobl y mae siarad dros blant a phobl ifanc yn rhan o'u gwaith. Eiriolwr neu adfocafat yw'r enw ar berson fel hyn.

Mae'r eiriolwr yn gallu dweud wrth bobl eraill sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo a beth maen nhw ei angen i'w helpu yn yr ysgol neu goleg. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr fod eiriolwyr ar gael i siarad dros blant a phobl ifanc.

Rydym ni'n meddwl ei fod yn bwysig fod awdurdodau lleol yn dweud wrth bobl am eiriolwyr – trwy daflenni, poster, gwefannau a llinellau cymorth ffôn.

Rydym ni hefyd yn meddwl fod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr fod pob eiriolwr yn:

- rhoi cymorth yn gyflym
- deall y cyfan am anghenion dysgu ychwanegol
- gwybod sut i siarad gyda phlant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd – fel iaith arwyddo
- yn ddiogel i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

10. Beth yw eich barn chi am ein syniadau am y pethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud i wneud yn siŵr fod eiriolwyr yn gallu gwneud y gwaith yn iawn?

Gofyn i farnwr benderfynu beth sy'n iawn

Os nad yw plentyn, rhiant neu berson ifanc yn fodlon gyda beth mae awdurdod lleol neu goleg wedi'i wneud, maen nhw'n gallu gofyn i farnwr benderfynu beth sy'n iawn.

Mae barnwr yn gallu penderfynu ynghylch llawer o bethau – megis a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol a pha gymorth y mae'n ei gael.

Er mwyn ei helpu i benderfynu, mae'n rhaid i farnwr gael gwybod pam nad yw'r plentyn, rhiant neu'r person ifanc yn hapus gyda beth mae'r awdurdod lleol neu goleg wedi'i ddweud.

Bydd y plentyn, rhiant neu'r person ifanc yn ysgrifennu'r pethau nad ydyn nhw'n hapus yn eu cylch a pham maen nhw'n meddwl nad yw'r awdurdod lleol neu goleg yn iawn. Mae hyn yn cael ei alw'n achos.

Pan fydd barnwr yn dweud wrth yr awdurdod lleol neu'r coleg fod plentyn, rhiant neu berson ifanc wedi cyflwyno achos, bydd yr awdurdod lleol neu goleg yn cyflwyno'u hachos eu hunain.

Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig fod yr awdurdod lleol neu goleg yn gweld achos y plentyn, rhiant neu berson ifanc. Yna gall yr awdurdod lleol neu'r coleg ddweud wrth y barnwr am y pethau nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn hapus yn eu cylch. Fyddan nhw ddim yn ysgrifennu am bethau nad ydyn nhw'n cyfrif.

Rydym ni hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig fod pethau'n cael eu gwneud yn gyflym. Mae hynny'n golygu y bydd y barnwr yn gallu dweud pwy sy'n iawn yn gyflym ac na fydd yn rhaid i'r plentyn, rhiant neu berson ifanc aros yn rhy hir.

Rydym ni'n meddwl y dylai hynny weithio fel hyn:

- Mae awdurdod lleol neu goleg yn dweud wrth blentyn, rhiant neu berson ifanc am rywbeth – fel pa gymorth y byddan nhw'n ei gael.
- Nid yw'r plentyn, rhiant neu'r person ifanc yn hapus gyda beth mae'r awdurdod lleol neu goleg wedi'i ddweud.
- Mae'r plentyn, rhiant neu berson ifanc yn gallu dweud wrth farnwr eu bod eisiau i farnwr benderfynu.
- Mae'r plentyn, rhiant neu berson ifanc yn ysgrifennu achos i ddweud wrth y barnwr pam nad ydyn nhw'n hapus ac yn ei anfon at y barnwr.

- Mae hyn yn gallu digwydd yr un pryd neu ar wahanol adegau. Ond, mae'n rhaid eu gwneud o fewn 8 wythnos.
- Pan fydd y barnwr yn gwybod fod plentyn, rhiant neu berson ifanc eisiau i farnwr benderfynu, bydd yn dweud hynny wrth yr awdurdod lleol neu'r coleg ar unwaith.
- Bydd y barnwr hefyd yn anfon yr achos at yr awdurdod lleol neu'r coleg gynted ag y bydd wedi ei gael.
- Bydd yr awdurdod lleol neu goleg yn ysgrifennu achos i ddweud wrth y barnwr pan maen nhw'n meddwl eu bod yn gwneud y peth iawn.
- Rhaid anfon yr achos at y barnwr o fewn 4 wythnos.

11. Beth yw eich barn chi ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio, pan fyddwch yn gofyn i farnwr benderfynu pwy sy'n iawn?

12. Beth yw eich barn ynglŷn â faint o amser sydd gan blant, rhieni a phobl ifanc i ddweud wrth y barnwr ac i anfon yr achos at y barnwr?

13. Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan golegau ac awdurdodau lleol i anfon achos at y barnwr?

Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr fod yna berson ym mhob ysgol a choleg sy'n gwneud yn siŵr fel rhan o'i waith fod plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y cymorth maen nhw ei angen.

Yr enw ar y person hwnnw yw cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (additional learning needs co-ordinator neu ALNCo).

Mae'n bwysig mai'r person hwnnw yw'r person iawn ar gyfer y swydd. Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig bod y Cydlynnydd yn athro / athrawes mewn ysgol neu goleg neu'n rhywun sydd eisoes yn gwneud swydd fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig bod y person yn athro / athrawes oherwydd mae athrawon yn siarad gydag athrawon eraill – megis y pennaeth. Mae hynny'n bwysig oherwydd mae athrawon yn gallu dweud wrth y pennaeth os oes angen newid rhywbeth dros yr ysgol gyfan. Mae athrawon yn gallu newid pethau yn eu dosbarth ond gwaith y pennaeth yw gwneud i newid ddigwydd drwy'r ysgol i gyd.

Rydym ni'n gwybod fod rhai pobl eisoes yn gwneud swydd fel y Cydlynnydd. Yr enw ar y bobl hynny yw cydlynwyr anghenion addysgol arbennig neu SENCos (special educational needs co-ordinators). Nid yw pob Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig yn athro / athrawes. Rydym yn meddwl, os yw Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig eisoes yn gwneud y swydd yn dda, y gallai fod y person iawn i fod yn Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

14. Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig fod y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn athro / athrawes neu'n rhywun sydd eisoes yn Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig?

Ydw

Nac Ydw

Bydd y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gwneud llawer o bethau i helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol

Bydd y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gwneud y pethau hyn:

- canfod pa blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a gwneud yn siŵr fod gan bob un gynllun
- gwneud yn siŵr fod y cynlluniau'n gyfoes
- gwneud yn siŵr fod pob plentyn a pherson ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael yr help y maen nhw ei angen i ddysgu ac i gymryd rhan.
- cadw llygad i wneud yn siŵr bod yr help y mae'r plant a phobl ifanc yn ei gael yn gweithio'n dda iddyn nhw
- darparu gwybodaeth ar gyfer plant, eu rhieni a phobl ifanc
- dysgu mwy ynglŷn â sut i helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol
- dangos i athrawon eraill sut i helpu plant a phobl ifanc wrth ddysgu mewn gwahanol ffyrdd
- helpu pobl sy'n dysgu neu'n helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol i wybod popeth am eu swydd, er mwyn ei chyflawni'n dda
- helpu plant a phobl ifanc pan mae newid yn digwydd - megis gadael ysgol neu fynd i goleg
- gweithio gyda phobl eraill er mwyn gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth y maen nhw ei angen
- helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc pan nad yw pethau'n mynd yn dda.

15. Ydych chi'n meddwl mai'r y pethau hyn yw'r pethau y dylai Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol?

Ydw

Nac Ydw

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Fe hoffen ni rannu'r atebion hyn gyda phobl eraill. Cliciwch y botwm os byddai'n well gennych chi gadw'ch atebion yn gyfrinachol:

Cofiwch gael rhiant neu warcheidwad i lofnodi yma os ydych chi o dan 18:

Mae gwybodaeth ynghylch y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ar y dudalen nesaf.

Gofalu am wybodaeth amdanoch chi.

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni wrth ymwneud â'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i benderfynu sut i gymryd eich gwybodaeth a'i defnyddio i wneud eu gwaith.

Bydd staff Llywodraeth Cymru yn gweld sut rydych wedi ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Os bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar yr ymgynghoriad, efallai y bydd yn gofyn i sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth, ond os gwnaiff Llywodraeth Cymru hyn, byddwn yn gwneud yn siŵr fod y sefydliadau hyn yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiad yn dangos rhai o'r sylwadau a wnaeth pobl.

Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn yn gwneud yn siŵr wedyn cyn cyhoeddi nad yw'ch manylion yn cael eu cynnwys. Dylech wybod hefyd fod modd i bobl ofyn i ni am wybodaeth (y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth).

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddiedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am gyfnod o dair blynedd neu lai.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a chael mynediad ato

- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Sut i ymateb

Dylid e-bostio / postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at y cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 22 Mawrth 2019 ar yr hwyraf.

Manylion Cyswllt
Am ragor o wybodaeth:

Cangen Pontio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

e-bost: SENreforms@gov.wales

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol
Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd
eraill ar gais.

Gellir cael y dogfennau ymgynghori o wefan Llywodraeth Cymru ar
<https://beta.gov.wales/consultations>

© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2018

WG 36714